Syniadau A G

Tymor yr Hydref 2017 **Pris £1.00**

gan
Gill Vaisey, Ymgynghorydd Addysg Grefyddol

Teithiau gyda phwrpas Arbennig /A yw ambell siwrne yn arbennig?

Effaith y profiad ar ffydd.

Mae addysg grefyddol dda yn delio â disgyblion sydd yn datblygu dealltwriaeth o gredoau pobl, a sut mae'r credoau yna yn effeithio ar eu bywyddau bob dydd. Rhaid dewis yn ofalus enghreifftiau o gredoau ac ymarferion fel hyn, i gydfynd â datblygiad y plant. Mae'r syniadau isod fel arfer yn addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. Dylai y materion drafodir ynghyd â'r gweithgareddau gynnig sialens i ddisgyblion i edrych ymhellach na 'r lleoedd eu hunain ac i archwilio sut mae'r lleoedd yma yn bwysig oddifewn i gyd-destun crefydd ac i unigolion fydd yn edrych arnynt.

Cychwyn gyda phrofiadau y plant eu hunain.
Yn gyntaf, anogwch y plant i feddwl am unrhyw daith bersonol, arbennig, maent hwy wedi bod arni, neu unrhyw le arbennig maent wedi ymweld ag ef . Anogwch hwy i feddwl am rai lleoedd sydd yn ddeniadol ac yn hudo pobl a beth yw'r rhesymau am hyn ee glan y bedd, coffadwriaethau, gerddi, adeiladau hanesyddol ayyb.

Gofynnwch gwestiynau fel;
Beth sydd yn gwneud taith yn un arbennig ?
Pam fod pobl yn cael eu tynnu tuag at ambell le ?
Ydi rhai lleoedd yn effeithio ar bobl yn yr un ffordd?
Fedr ymweld â lle arbennig gael effaith ar unigolyn ? A yw yn bwysig cofio digwyddiadau y gorffennol ac ymweld â lleoedd sydd yn gysylltiedig â hwy ?

Oes unrhyw daith sydd yn un arbennig i mi ?
Oes gen i deimladau arbennig am unrhyw le ?

Symud ymlaen…..
Gofyn i'r plant a ydynt yn gwybod am unrhyw daith mae pobl yn ei wneud sydd yn gysylltiedig â chrefydd a digwyddiadau crefyddol. Archwiliwch weithgareddau a theimladau sydd yn gysylltiedig gyda phererindod crefyddol neu ymweld â lleoedd sydd yn gysylltiedig â chrefydd a digwyddiadau crefyddol. Gall rhain fod yn leoedd pererindod Cristnogol ee Tŷ Ddewi, Walsingham, Lourdes, a / neu Balesteina ac arwain i archwilio i'r Hajj Mwslemaidd fel un o'r Pump Piler Islam. Os yn bosibl, cynhaliwch gyfweliad gyda rhywun sydd wedi bod ar daith fel hyn i weld pa fath o effaith mae hyn wedi ei gael arnynt..

Gofynnwch gwestiynau fel hyn:
Ddylai rhywun sydd â ffydd wneud pob ymdrech i ymweld â lleoedd sydd yn gysylltiedig â'u crefydd
Fedr mynd ar daith effeithio ar ffydd rhywun?

Bwrdd Targedu a Gweithgaredd Bin Sbwriel.

Dyma weithgaredd datrys problemau yn seiliedig ar gwestiwn allweddol sydd raid i'r disgyblion ymchwilio iddo a cheisio ei ateb.

Dyma'r cwestiwn: Pam fod Dewi Sant yn bwysig i Gristnogion yng Nghymru ? Nid oes ateb cywir i'w gael ond gyda thystiolaeth mae disgyblion yn dod i gasgliad eu hunain. Gall rhai cliwiau fod yn gamarweiniol ac felly nid oes sicrwydd a yw'r wybodaeth yna yn ddibynadwy.

Bydd raid i'r disgyblion chwilio, dethol, trafod, rhoi mewn trefn a thrafod achos ac effaith. Byddant yn defnyddio y cliwiau /gosodiadau i'w helpu i benderfynu beth yw'r ateb gorau i'r cwestiwn.

Bydd y disgyblion yn gosod y datganiadau ar y Bwrdd Targed neu yn y Bin (gweler isod) wrth benderfynu. Gellir symud datganiadau tra yn trafod ac yn cynnal mwy o weithgareddau . Nid oes atebion cywir nag anghywir i'w cael.

Wrth edrych yn ôl ar yr weithgaredd a'r hyn roeddynt yn ei feddwl, gall disgyblion gwblhau y frawddeg ar y daflen gychwynol.

2

Adnoddau Defnyddiol.

Mae gan RE Quest (request.org.uk) adran wych a chasgliad o adnoddau ar St David. http://request.org.uk/?s=St+David

Gellir cael rhagor o adnoddau ar: https://hwb.wales.gov.uk/search?query=St%20David

Ymweliadau Ysgol i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi

Dyddiau Pererindod
Mae Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yn cynnig dyddiau pererindod yn ystod y flwyddyn academaidd,. Croesawir ymweliadau gan ysgolion a gellir ymweld ar yr amseroedd isod:
Yn y bore: 10yb - 12yp
Yn y prynhawn: 12yp - 2:30yp
Diwrnod cyfan: 10yb - 2:30yp

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn barod iawn i addasu gweithgareddau i gwrdd ag anghenion Addysg Arbennig, os ceir digon o rybudd ymlaen llaw. Bydd yr adnoddau fydd ei angen ar gyfer y gweithgareddau i gyd ar gael yno.

Cost yn ymweliadau fydd £2.50 am ddiwnod llawn i bob disgybl a £1.50 i bob disgybl am hanner diwrnod. Ymweliadau preswyl .

Mae **ymweliadau preswyl** o 48 awr ar gael yn costio £38 i bob disgybl fydd yn aros yn y"Bunk Barn" http://stdavidsbunkbarns.co.uk
Gellir cael hyd at 90 o ddisgyblion i aros.
Rhaglen lawn o weithgareddau.
Rhaglen gyda'r nos ychwanegol yn cynnwys:
Yr Eglwys Gadeiriol yng Ngolau Canhwyllau : Yr Adfent a'r Grawys
Dweud straeon yn yr ysgubor.
Canu wrth y tân yn yr ysgubor.
Ymweld â'r Eglwys Gadeiriol i'r gwasanaeth gyda'r nos.

Gweithgareddau yn ystod gwyliau yr ysgol.
Mae'r Eglwys Gadeiriol yn cynnal Teithiau Antur bob dydd Mawrth yn ystod gwyliau ysgol.

Manylion Cyswllt:
Tŷ'r Pererin
Quickwell Hill
St Davids
SA62 6RJ

Janet Ingram - Swyddog Addysg a Phererindod
Clare Williams - Dirlorwy Swyddog Addysg a Phererindod

Ffôn: 01437 729151
Ebost: education@stdavidscathedral.org.uk
Gwefan: www.stdavidscathedral.org.u

Gweithgaredd Bwrdd Targed Tŷ Ddewi.

Rhowch y cardiau ar y bwrdd targed i ddangos pa ateb i'r cwestiwn ydych yn feddwl sydd yn fwyaf defnyddiol a pha un sydd yn llai defnyddiol:

Pam fod Dewi Sant yn bwysig i Gristnogion yng Nghymru ?

Dewi Sant yw nawdd sant Cymru . Mae nawdd sant yn edrych ar ôl rhywbeth fel gwlad neu grŵp o bobl.

Daw y rhan fwyaf o'r wybodaeth am Dewi Sant o straeon a chwedlau. Dim ond rhai pethau sydd yn bendant yn wir.

Dywedodd angel wrth Paulinus am anfon Dewi i ffwrdd o'r fynachlog er mwyn iddo fedru dysgu pobl sut i fod yn Gristnogion.

Cred Cristnogion fod seintiau yn agos iawn at Dduw.

Roedd mam Dewi yn ferch i bennaeth. Roedd yn wraig dduwiol a'i henw oedd Non neu Nonna

Mae rhai Cristnogion yn gweddio i seintiau.

Pan fedyddiwyd Dewi syrthiodd peth o'r dŵr sanctaidd daenellwyd dros ei ben, ar wyneb dyn dall a daeth hwnnw i weld eto.

4

Daeth Dewi yn fynach a bu'n astudio mewn mynachlog yng Ngymru am ddeng mlynedd.

Enw athro Dewi oedd Paulinus. Roedd Paulinus yn ddall ond pan wnaeth Dewi arwydd y groes o'i flaen , dechreuodd Paulinus weld eto.

Teithiodd Dewi i Loegr, Ffrainc a'r Iwerddon yn dysgu pobl am Gristnogaeth.

Mae llawer o eglwysi yng Nghymru wedi eu henwi ar ôl Dewi Sant.

Daeth llawer o bobl yn Gristnogion wedi clywed Dewi yn dysgu.

Pan oedd Dewi yn fynach, roedd yn byw bywyd llym iawn - yn bwyta bara, llysiau a halen yn unig.

Roedd Dewi yn berson caredig ac addfwyn iawn

Roedd Dewi a'i fynachod yn arfer nol dŵr o afon yn ymyl y fynachlog.

Ceisiodd rhai o elynion Dewi ei ladd drwy roi iddo fara oedd wedi ei wenwyno. Bendithiodd Dewi y bara ac yna ei fwyta heb gael niwed o gwbl.

5

Roedd y mynachod yn codi yn fore ac yn gweithio yn galed yn tyfu cynnyrch yn y caeau.

Unwaith, pan oedd miloedd o bobl yn ceisio clywed a gweld Dewi, cododd y tir odditan ei draed i ffurfio bryn bychan iddo sefyll arno.

Dewiswyd Dewi i fod yn Archesgob Cymru a daeth yn arweinydd y Cristnogion yng Nghymru.

Pan fu farw Dewi, roedd dros gant oed.

Adeiladodd Dewi fynachlog ar lannau afon lle saif y ddinas yn Sir Benfro yn awr.

Pan fu farw Dewi, llanwyd y fynachlog gydag angylion oedd yno i gario enaid Dewi i'r nefoedd.

Claddwyd Dewi yn nhir ei fynachlog. Dyma safle presennol eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi.

Caiff pobl lawer o hwyl yn dathlu Dydd Gwyl Ddewi ar 1af o Fawrth.

Teithiodd Dewi dros Gymru gyfan yn dysgu pobl am Gristnogaeth

Mae Dewi yn enw poblogaidd iawn i bobl yng Nghymru.

6

Pam fod Dewi yn bwysig i Gristnogion yng Nghymru ?

Nod y dysgu: I ystyried a chofnodi ein hymateb i'r weithgaredd ar y bwrdd targed.

Wedi cwblhau yr weithgaredd ar y Bwrdd Targed , roedd ein grwp yn meddwl

Dyma"r atebion mwyaf defnyddiol i'r cwestiwn …

Dyma'r atebion llai pwysig ….

Dyma'r atebion i fynd i'r bin sbwriel……

Roedd cyflawni yr weithred yma wedi gwneud i mi feddwl……

Crewyd y gweithgaredd gan Gill Vaisey.
© 2008

7

Datrys y Dirgelwch
Bwrdd Targed a'r Bin Sbwriel

Yn ddefnyddiol weithiau

Yn eitha defnyddiol

Yn ddefnyddiol iawn

Y mwyaf defnyddiol.

Dim defnydd o gwbl

8

ADNODDAU MAGC
(Mudiad Addysg Grefydol Cymru)

**********Llyfr – Cyhoeddwyd – Gorffennaf 2017******

Hyrwyddo Crefydd:

Hanes Mudiad Addysg Gristnogol / Grefyddol Cymru, 1965–2015

ALED D JONES

Catalog o ôl rifynnau o '*Syniadau AG*' ar gael

Cyhoeddiadau Cynradd – *Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu;*
Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig
Cyfres Ymchwilio i Thema: *i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau ac i Gwestiynau Dyrys.*
SAESNEG *Amazing Lives* (ar gael yn Gymraeg – **Am Ddawn – Huw John Hughes**)
Cyhoeddiadau Uwchradd – *What the Welsh Churches say on moral and social issues;*
Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chyndeithasol.
Cyffredinol:*: More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)

Cysyllter â: Sali Roberts, REMW, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX
(Tel/Fax: 01654 - 761 697) e mail: salipatshyn@.hotmail.com

© MAGC 2017

9